**Rhif: WG 50988**

**ISBN 978-1-83625-841-4**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 Drafft

Ymgynghoriad ar y canlynol oedd hwn: Rheoliadau drafft i gryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Hydref 2024

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-841-4

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad:

- Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 Drafft.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 16 Ebrill 2024 a daeth i ben ar 19 Gorffennaf 2024. Daeth 24 o ymatebion i law gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â buddiant.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Partneriaeth ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: partneriaethacintegreiddio@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: https://www.llyw.cymru/rheoliadau-trefniadau-partneriaeth-diwygiadau-amrywiol-cymru-2024-ddrafft

**Cynnwys**

**Adran 1**


Cyflwyniad 4

Yr ymgynghoriad, y gynulleidfa a’r gwaith ymgysylltu 4


**Adran 2**


Ymatebion i’r ymgynghoriad 6

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd 7

Ymateb Llywodraeth Cymru 18

Y camau nesaf 21

## Adran 1

## Cyflwyniad

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar set ddrafft o reoliadau, Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024. Mae'r rhain yn diwygio'r tair set ganlynol o Reoliadau:

- **Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015**
- **Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017**
- **Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021**

Nod y diwygiadau hyn yw egluro a chryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf'), gan ganolbwyntio'n benodol ar rôl a swyddogaethau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae cryfhau partneriaethau rhanbarthol yn elfen allweddol o Raglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn dilyn ein hymgynghoriad cynharach yn 2023 ar wahanol elfennau o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad hwn i'w gweld ar ein **tudalen canlyniadau'r ymgynghoriad ar ailgydbwyso gofal a chymorth yma**. Roedd ymgynghoriad 2023 yn cynnwys cynigion i ddiwygio'r Rheoliadau uchod, yn ogystal â drafft wedi'i ddiweddaru o’r Canllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gwnaethom lunio drafft o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024, a chyhoeddwyd y rhain at ddiben ymgynghoriad rhwng 16 Ebrill a 19 Gorffennaf 2024.

### Yr ymgynghoriad, y gynulleidfa a’r gwaith ymgysylltu

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymgynghoriad technegol ar set ddrafft o Reoliadau. Y brif gynulleidfa oedd y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y cyrff partneriaeth statudol (awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol) a sefydliadau ac unigolion eraill sy’n ymwneud â'r partneriaethau rhanbarthol ac a oedd yn cael eu cynrychioli (neu fod cynnig iddynt gael eu cynrychioli) ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd y rhain yn cynnwys darparwyr gofal a chymorth (o bob rhan o'r sector preifat a'r trydydd sector, gofal sylfaenol a chymdeithasau tai), sefydliadau'r trydydd sector gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl, sefydliadau statudol eraill megis Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, a sefydliadau sy'n cynrychioli'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol (undebau llafur a chyrff proffesiynol). Roedd yr ymgynghoriad hefyd o ddiddordeb i gyrff statudol eraill megis Comisiynydd Plant Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a Llais.

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 16 Ebrill 2024, gan bara deuddeg wythnos tan 19 Gorffennaf 2024. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Rheoliadau drafft.

Gan fod hwn yn ymgynghoriad technegol ar set ddrafft o Reoliadau, yn dilyn ymgynghoriad cynharach ac ehangach, penderfynwyd cynnal un digwyddiad ymgynghori yn unig a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar gynnig newydd i gynnwys cynrychiolydd o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Cynhaliwyd y digwyddiad ymgynghori hwn ar-lein ar 27 Mehefin 2024 gan ddwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r Byrddau eu hunain (cadeiryddion ac arweinwyr rhanbarthol) ac o undebau llafur perthnasol.

## Adran 2

## Ymatebion i’r ymgynghoriad

Cafwyd 24 ymateb i’r ymgynghoriad. Cafwyd ymatebion gan bob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; dau awdurdod lleol unigol (Gwynedd a Chonwy); tri undeb llafur / corff proffesiynol (Unsain Cymru, GMB Wales and South West, a Choleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru); dau gorff darparwr – un sector preifat (Fforwm Gofal Cymru) ac un trydydd sector (Cartrefi Cymunedol Cymru); dau fudiad gwirfoddol (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ac Age Cymru); Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chonffederasiwn GIG Cymru; Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC); Llais (corff llais y dinesydd); a dau ymateb gan unigolion.

Er mai ymgynghoriad penodol ar y Rheoliadau drafft oedd hwn, cododd yr holl ymatebion faterion ehangach hefyd yn ymwneud â gwaith partneriaeth rhanbarthol a datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig. Mewn llawer o achosion, roedd y sylwadau hyn yn ailadrodd pwyntiau a godwyd yn ystod ymgynghoriad 2023. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau ar y fersiwn ddrafft o Ganllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth, a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad hwnnw.

Mae'r adroddiad ymgynghori hwn yn crynhoi'r ystod o sylwadau a dderbyniwyd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Chanllawiau Statudol Rhan 9 a materion ehangach, yn ogystal â'r rhai sy'n benodol ar y Rheoliadau drafft.

## Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd

**Cwestiwn 1: Beth yw eich barn am Reoliadau (drafft) Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024? A yw'r darpariaethau yn glir ac wedi'u cynllunio mewn ffordd sy'n hwyluso'r bwriadau a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon?**

Yn gyffredinol, nododd yr ymatebion fod y darpariaethau a bwriadau Llywodraeth Cymru yn glir, ond roedd gwahaniaeth barn ynghylch a oedd yr holl ddiwygiadau yn angenrheidiol neu'n ddymunol, a sut y byddent yn gweithio'n ymarferol.

**Amcanion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

*Rheoliad 4 o'r Rheoliadau drafft (diwygio Rheoliad 10 o Reoliadau 2015)*

Cefnogwyd yr amcan newydd o fynnu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn ymateb i adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad. Roedd y Byrddau eu hunain o'r farn bod hyn yn gadarnhaol ac yn adlewyrchiad o'r hyn a oedd eisoes yn digwydd yn ymarferol. Fodd bynnag, awgrymodd CGGC y dylid cynnwys cyfeiriadau penodol at weithio gyda'r sector gwerth cymdeithasol.

Derbyniwyd hefyd yr amcan i weithio gyda Llais i hyrwyddo cyfranogiad pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr, yng ngwaith y trefniadau partneriaeth. Dywedodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu bod eisoes wedi datblygu cysylltiadau cadarnhaol, a’u bod yn gallu gweld gwerth ychwanegol a'r potensial i wella cyfranogiad dinasyddion wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Croesawodd Llais yr amcan gan ei fod yn eu helpu i wneud cyfraniad ystyrlon at drafodaethau a sicrhau bod llais y dinesydd yn cael ei glywed yn gynharach. Cafwyd dau awgrym i gryfhau'r amcan: awgrymodd yr EHRC y dylid sicrhau bod y cyfranogiad hwn yn cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb; ac awgrymodd CGGC y dylid ychwanegu ymgynghori a gweithio gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol ar lefel leol a rhanbarthol, gan gydnabod lleisiau eraill sy'n cynrychioli'r sector gwirfoddol.

Cefnogwyd yr amcan newydd o hyrwyddo datblygiad trefniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (gydag un eithriad), ond mynegodd pob un bryder ynghylch sut roedd hyn yn cael ei ddehongli yn y Canllawiau Statudol. Mynegodd y Byrddau bryder am wreiddio'r chwe model gofal integredig yn y canllawiau, a rhybuddiodd CLlLC hefyd rhag bod yn or-ragnodol o ran modelau gofal. Croesawodd dau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Chonffederasiwn y GIG y diffiniad newydd o integreiddio yn y canllawiau, er bod un yn meddwl ei fod yn rhy academaidd.

Roedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gwrthwynebu'n gryf yr amcan newydd i roi sylw dyladwy i ddyletswydd awdurdod lleol o dan adran 16 o'r Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddiwr a'r trydydd sector wrth ymateb i adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad a gweithredu'r cynlluniau ardal. Nid y bwriad ailgydbwyso oedd y rheswm am hyn, ond yn hytrach yr honiad y byddai'n amhriodol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol graffu ar ddyletswyddau statudol partner statudol. Gofynnodd Conffederasiwn y GIG gwestiwn ynghylch unrhyw oblygiadau llywodraethu i gyrff sector cyhoeddus nad ydynt wedi'u rhwymo gan y ddyletswydd hon ar hyn o bryd. Mynegodd Unsain

Cymru ei wrthwynebiad i unrhyw fath o ddarpariaeth gofal cymdeithasol nad oedd yn cael ei darparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol.

Cododd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yr un gwrthwynebiad i'r amcan newydd i fonitro sut mae awdurdodau lleol yn arfer eu dyletswydd o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 mewn perthynas ag arfer y trefniadau partneriaeth (ac ychwanegu adran 12 at y rhestr o swyddogaethau awdurdodau lleol sydd i'w harfer mewn partneriaeth yn Atodlen 1 i Reoliadau 2015). Unwaith eto, honnwyd na fyddai'n briodol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fonitro'r gwaith o gyflawni unrhyw un o ddyletswyddau'r partneriaid statudol; ar ben hynny, gallai danseilio cysylltiadau rhwng y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac awdurdodau lleol o fewn y bartneriaeth.

> “Rôl y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw hwyluso integreiddio er budd carfannau diffiniedig o’r boblogaeth, hyrwyddo egwyddorion integreiddio a hwyluso cynllunio a darparu integredig. Nid yw, ac ni ddylai fod, yn gyfrwng i ddwyn partneriaid unigol i gyfrif am gyflawni eu dyletswyddau statudol unigol.” (Ymateb Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol)

Fodd bynnag, roedd Comisiynydd Plant Cymru yn cefnogi'r amcan newydd mewn perthynas ag adran 12 o'r Mesur Plant a Theuluoedd.

**Aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

*Rheoliad 4 o'r Rheoliadau drafft (diwygio Rheoliad 11 o Reoliadau 2015)*

Roedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi ychwanegu Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a chynrychiolydd o'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol fel aelodau o’r Byrddau. Yn y rhan fwyaf o ranbarthau, maent eisoes yn aelodau. Cododd dau Fwrdd bryderon ynghylch ychwanegu cynrychiolydd o blith darparwyr gofal sylfaenol - e.e. sut y byddai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dewis y cynrychiolwyr hyn, a sut y gallent gynrychioli pob agwedd ar ofal sylfaenol. Roedd pryder hefyd am faint cyffredinol y Byrddau, ac awgrym y dylent fod yn hyblyg o ran sut a ble y gallai'r cynrychiolwyr ychwanegol hyn gael eu cynnwys yng ngwaith y bartneriaeth ranbarthol. Soniodd un Bwrdd am y gorbenion gweinyddu ychwanegol yn sgil ychwanegu aelodau newydd.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn croesawu'r gofyniad i wahodd Llais i fod â statws arsylwr annibynnol.

Cafwyd ymateb cymysg i'r cynnig i ychwanegu aelod i gynrychioli buddiannau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gyda rhaniad amlwg rhwng undebau llafur / cyrff proffesiynol ac eraill (EHRC a Cartrefi Cymunedol Cymru), a oedd yn cefnogi'r cynnig, a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a oedd yn ei wrthwynebu. Roedd CLlLC yn ei gefnogi mewn egwyddor, ond roedd yn poeni sut y byddai'n gweithio'n ymarferol. Awgrymodd CLlLC y dylai fod mwy o hyblygrwydd ar gyfer disgresiwn rhanbarthol mewn trefniadau aelodaeth, gan alluogi aelodau rhestredig Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gymryd rhan drwy is-grwpiau neu fecanweithiau eraill, yn hytrach na gorfod bod yn rhan o bob cyfarfod o'r bwrdd.

Roedd y gwrthwynebiadau gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn amrywiol, ac yn cynnwys priodoldeb cael cynrychiolaeth o'r fath ar y bwrdd (o ystyried trefniadau presennol rhwng cyflogwyr a chynrychiolwyr y gweithlu), anawsterau cynrychioli gweithlu mor amrywiol, a phrofiad blaenorol un Bwrdd a oedd wedi cyfethol

cynrychiolydd undeb llafur yn y gorffennol. Awgrymwyd y byddai'n fwy priodol i gynrychiolwyr y gweithlu gael eu cynnwys ar haenau eraill o'r bartneriaeth, yn hytrach nag ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ar y llaw arall, roedd yr undebau llafur yn gefnogol iawn i'r cynnig hwn, gan ddadlau bod angen clywed lleisiau gweithwyr ar y cam cynharaf posibl mewn gwaith cynllunio strategol, gan gynnwys ar lefel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol lle gwneir penderfyniadau strategol. Rhybuddiodd yr ymatebion gan yr EHRC a Cartrefi Cymunedol Cymru yn erbyn y rhagdybiaeth mai undebau llafur fyddai'r unig lwybr priodol, gan nad yw nifer fawr o weithwyr yn cael eu cynrychioli ganddynt. Tynnodd yr EHRC sylw at ei adroddiad yn 2022 'Profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol: triniaeth gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is', a dynnodd sylw at y lefelau isel o aelodaeth undebau llafur ymhlith y rhan hon o'r gweithlu.

Yn ogystal ag eirioli dros gynrychiolaeth undebau llafur, awgrymodd y Coleg Nyrsio Brenhinol y dylai pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd gynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio y bwrdd iechyd. Awgrymodd hefyd y dylai fod yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, efallai drwy adroddiadau blynyddol.

Roedd y safbwyntiau cymysg hyn yn adlewyrchu'r drafodaeth yn y cyfarfod ymgynghori ar y mater hwn, a gynhaliwyd ar 27 Mehefin ac a fynychwyd gan chwe Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, CLILC ac un undeb llafur (Unsain).

Awgrymodd rhai ymatebion aelodau a oedd yn ychwanegol at yr hyn a nodir yn y Rheoliadau drafft. Argymhellodd yr EHRC y dylid gwahodd cynrychiolwyr sydd ag arbenigedd mewn cydraddoldeb a hawliau dynol i arsylwi cyfarfodydd lle byddai'r agenda'n elwa ar hyn. Argymhellodd hefyd aelodaeth amrywiol sy'n diwallu anghenion pob dinesydd, gan gynnwys y grwpiau hynny sydd â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Awgrymodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylai fod gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o leiaf un aelod o bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y rhanbarth, er mwyn helpu i sicrhau gwell integreiddio rhwng gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Awgrymodd y Comisiynydd hefyd y dylai'r Rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyhoeddi eu haelodaeth. Awgrymodd Cartrefi Cymunedol Cymru y dylai darparwyr gofal fod â llais cryfach, gan fod y sector yn amrywiol iawn ac na fydd pob darparwr yn ymwneud â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol na Fforwm Gofal Cymru (sy'n gweithredu fel yr aelod sy'n cynrychioli darparwyr ar y rhan fwyaf o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol).

### Personau cyfrifol

*Rheoliad 11 o'r Rheoliadau drafft (ychwanegu Rheoliad 11A at Reoliadau 2015)*

Roedd Conffederasiwn y GIG yn cefnogi'r Rheoliad drafft newydd sy’n darparu bod rhaid i bob un o'r cyrff partneriaeth benodi person cyfrifol i hwyluso'r trefniadau partneriaeth a hyrwyddo cydweithredu, er iddo awgrymu bod angen eglurhad pellach ar yr hyn a olygwyd gan hwyluso a hyrwyddo yn y cyd-destun hwn. Nid oedd ymateb cyffredinol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mor glir, gyda thri Bwrdd yn cefnogi'r ddarpariaeth hon yn llwyr, ond dau arall yn mynegi pryderon am y goblygiadau ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd - e.e. byrddau iechyd yn gweithredu fel byrddau integredig gyda'r holl aelodau'n arfer atebolrwydd ar y cyd (mater a godwyd hefyd mewn nifer o ymatebion i ymgynghoriad 2023).

Nododd CLILC hefyd nad oes gan Fyrddau Iechyd Lleol Swyddog Gweithredol diffiniedig yn yr un modd â'r gwasanaethau cymdeithasol, ac y byddai pennu un unigolyn yn heriol gan fod atebolrwydd yn cael ei rannu ar draws eu byrddau. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol nodi, neu roi enghreifftiau, yn y canllawiau o'r math o gamau y gellid eu cymryd pe na bai'r person neu'r sefydliad cyfrifol yn sicrhau cydweithrediad.

### Swyddogaethau gweinyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

*Rheoliad 6 o'r Rheoliadau drafft (ychwanegu Rheoliad 11B at Reoliadau 2015)*

Roedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chonffederasiwn GIG Cymru yn cefnogi'r darpariaethau newydd o ran recriwtio a chymorth i aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Croesawodd y Comisiynydd Plant yn arbennig y gofynion newydd ynghylch cyhoeddusrwydd fel rhai sy'n arwain at fwy o dryloywder a gwybodaeth am rolau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Argymhellodd yr EHRC y dylai'r Rheoliadau a'r canllawiau annog Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddefnyddio'r darpariaethau gweithredu cadarnhaol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i gynyddu amrywiaeth ar y Byrddau.

### Hunanasesu

*Rheoliad 6 o'r Rheoliadau drafft (ychwanegu Rheoliad 11C at Reoliadau 2015)*

Roedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi'r gofyniad i ymgymryd â hunanasesiad bob dwy flynedd fel y nodir yn y Rheoliadau drafft. Gwnaeth yr ymatebion sylwadau hefyd ar natur yr asesiadau hyn a sut y cânt eu cynnal, gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ffafrio fframwaith eang a hyblyg nad yw wedi'i ddiffinio nai'i fonitro'n gaeth. Ar y llaw arall, awgrymodd y Coleg Nyrsio Brenhinol y dylai sefydliad allanol annibynnol asesu perfformiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rheolaidd, gyda'r canfyddiadau ar gael i'r cyhoedd. Awgrymodd Conffederasiwn GIG Cymru y byddai'n ddefnyddiol ystyried effeithiolrwydd o wahanol safbwyntiau, gan gynnwys craffu allanol gwrthrychol rheolaidd.

Awgrymodd yr EHRC y dylai'r offeryn hunanasesu ystyried sut i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da yn unol â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

### Adroddiadau blynyddol

*Rheoliad 7 o'r Rheoliadau drafft (diwygio Rheoliad 12 o Reoliadau 2015)*

Roedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi'r rhestr o'r hyn y mae'n rhaid i'w hadroddiadau blynyddol ei gynnwys, a chroesawodd y Comisiynydd Plant yn arbennig y cynnig i gynnwys cyfrif o sut mae byrddau wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, yn ogystal â'r ddyletswydd i gyhoeddi'r adroddiadau ar-lein. Croesawodd yr EHRC hefyd y bwriad i gynnwys ymgysylltu â dinasyddion a'r ffocws ar sicrhau gwell canlyniadau i bobl, ond awgrymodd y dylai'r adroddiadau blynyddol hefyd fanylu ar waith ymgysylltu â'r rhai â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a sut mae hyn wedi llywio gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Soniodd Unsain am yr angen i'r Byrddau adrodd ar sut y maent wedi ymgysylltu â gweithwyr gofal.

### Cynlluniau cyflawni blynyddol ac adolygiadau blynyddol

*Rheoliad 9 o'r Rheoliadau drafft (diwygio Rheoliadau 7 o'r Rheoliadau Cynllunio Ardal)*

Roedd pedwar o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi'r gofyniad i lunio cynllun cyflawni blynyddol i gefnogi gweithredu'r cynllun ardal, ac i gynnal adolygiad blynyddol, gan dynnu sylw at y ffaith eu bod eisoes yn gwneud hyn. Nid oedd un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi hyn, ar y sail ei fod yn cynyddu'r baich adrodd. Roedd Conffederasiwn GIG Cymru yn cefnogi'r cynigion hyn hefyd, ac awgrymodd y byddai'n fanteisiol cael arweiniad, megis Fframwaith Cynllunio Blynyddol y GIG, yn nodi disgwyliadau a blaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgydbwyso gofal ar gyfer y flwyddyn i ddod, i lywio'r cynlluniau cyflawni blynyddol.

Awgrymodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylai'r cynlluniau cyflawni blynyddol ystyried ac alinio â chynlluniau llesiant y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau gwell ffocws ar iechyd y boblogaeth ac i integreiddio gwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Nododd y CCHD y dylai cydraddoldeb fod yn elfen graidd o asesiadau anghenion y boblogaeth, gan ddarparu tystiolaeth berthnasol ar gyfer cynlluniau ardal ar y cyd a chynlluniau cyflawni blynyddol.

**Adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad**

*Rheoliad 10 (diwygio Rheoliad 4 o Reoliadau Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad)*

Roedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi diwygio'r dyddiadau cyflwyno ar gyfer adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad yn eu hymatebion.

**Sylwadau eraill**

Tynnodd nifer o ymatebion sylw at bwysigrwydd rhoi'r Rheoliadau ar waith yn ymarferol, a phwysigrwydd arweinyddiaeth a datblygu diwylliant o bartneriaeth i gyflawni hyn. Gwnaethant hefyd sôn am yr angen am hyblygrwydd o fewn trefniadau llywodraethu a strwythur y partneriaethau, yn ogystal â phenderfyniad a hyblygrwydd lleol i ymateb i angen y boblogaeth leol.

Roedd galwadau am fwy o eglurder neu am gryfhau mewn rhai meysydd, yn enwedig o ran ymgysylltu â gwahanol sectorau - er enghraifft, cynnwys yn benodol ymgysylltu â darparwyr gofal a'r sector gwirfoddol yn y Rheoliadau, a gorfodi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sefydlu mecanweithiau ar gyfer ymgynghori a chyfathrebu rheolaidd â'r cyhoedd a phartïon eraill â buddiant.

Awgrymodd yr ECHR y dylai'r Rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau fodloni nodau dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, a nodi'n glir sut y byddant yn cyflawni nodau'r ddyletswydd cydraddoldeb.

Roedd y materion eraill a godwyd yn cynnwys tâl aelodau ac arsylwyr annibynnol, trefniadau ar gyfer sefydlu a rheoli cronfeydd cyfun, a sut mae data'n cael ei rannu a'i ddefnyddio ar draws sefydliadau partner.

**Cwestiwn 2: Beth yw eich barn am effaith debygol y Rheoliadau drafft ar sefydliadau neu sectorau penodol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol? A**

**oes unrhyw feysydd penodol lle rydych yn teimlo y bydd effaith gadarnhaol neu negyddol ar sectorau neu sefydliadau penodol? Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Er i'r cwestiwn hwn gael ei eirio o ran effaith y Rheoliadau drafft, cododd yr ymatebion bryderon ehangach ynghylch effaith gyffredinol elfennau rhanbarthol y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, sy'n cynnwys Canllawiau Statudol Rhan 9. Roedd rhywfaint o orgyffwrdd â'r ymatebion i Gwestiwn 6, a oedd yn gofyn am faterion eraill nad oedd yr ymgynghoriad yn mynd i'r afael â nhw yn benodol.

Gwnaeth nifer o ymatebion sylwadau ar yr effaith bosibl ar y trydydd sector. Mynegodd CGGC bryder am hyfywedd y sector gwirfoddol, yn enwedig sefydliadau llai, yn erbyn cefndir o doriadau contract, llai o gyfraniadau elusennol a chostau staff ac ynni uwch, ac awgrymodd y dylai'r Rheoliadau gynnwys cyfeiriad penodol at werth y sector gwirfoddol a'r ymgysylltiad disgwyliedig ag ef. Gan gyfeirio at yr amcan newydd sy'n ymwneud â dyletswydd adran 16, nododd Cyngor Sir Conwy fod gostyngiadau mewn cyllid craidd, a natur tymor byr llawer o gyllid grant y trydydd sector, yn golygu na all awdurdodau lleol bob amser gomisiynu yn y ffordd fwyaf effeithiol. Nododd Age Cymru hefyd y bydd angen i drefniadau cynllunio ar y cyd ystyried sefyllfa ansicr llawer o sefydliadau'r trydydd sector a sut y bydd hyn yn cael ei fonitro; a gofynnodd am ragor o fanylion am gynlluniau ar gyfer sut y gall gwybodaeth a phrofiad y trydydd sector fod yn rhan o'r sgwrs hon. Cododd Llais y mater o weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, gan adrodd faint o sefydliadau'r trydydd sector sy'n teimlo y gall eu perthynas â chyrff sector cyhoeddus fod yn un unffordd neu 'echdynnol', a nododd fod rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried sut y byddant yn sicrhau adnoddau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth neu'n darparu buddion cyfatebol i'r rhai sy'n ymgysylltu â nhw.

Pwysleisiodd Fforwm Gofal Cymru yr angen am farchnad gytbwys sy'n cydnabod gwerth gwasanaethau gofal rheoleiddiedig a'i weithlu, a sut mae hyn yn sail i'r system iechyd. Adroddwyd nad yw cynrychiolwyr darparwyr gofal ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn aml yn gwneud cymaint â'r trydydd sector ar grwpiau arwain Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac is-grwpiau eraill.

Tynnwyd sylw at effaith gadarnhaol bosibl cynnwys llais gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn yr ymatebion gan Unsain Cymru a GMB Wales and South West. Dywedodd Unsain fod llawer o ddarparwyr gofal yn gwrthwynebu cydnabyddiaeth undebau llafur ac awgrymodd y gallai undebau helpu i fonitro safonau newydd ym maes gofal cymdeithasol a gwella ansawdd gwasanaethau. Awgrymodd GMB hefyd y gallai mewnwelediad undeb roi persbectif ar lawr gwlad o effaith penderfyniadau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Rhestrodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent a Chyngor Sir Gwynedd fwy o ofynion gweinyddol ac adrodd fel heriau gweithredu posibl. Awgrymodd Gwent nad oes gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol lawer o gapasiti ar gyfer ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol oherwydd diffyg adnoddau. Mae angen i brosesau adrodd gydnabod bod newid effeithiol yn cymryd amser, a rhaid iddynt ganiatáu ar gyfer adborth ansoddol yn ogystal ag adborth meintiol. Mynegodd Gwynedd bryder y byddai buddsoddi mewn swyddogaethau gweinyddol (adrodd, hunanasesu) yn lleihau'r buddsoddiad yn y rheng flaen. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru hefyd

nad oedd hi'n glir a fyddai modd gweithredu o fewn yr adnoddau presennol neu a fyddai angen cyllid ychwanegol. Pwysleisiodd Age Cymru bwysigrwydd sicrhau adnoddau ar gyfer y gofynion adrodd ychwanegol, gan nodi bod casglu data, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu wedi bod yn broblem gyson yn adroddiadau 'Pam ydyn ni'n aros o hyd' Age Concern Cymru.

Roedd Cartrefi Cymunedol Cymru o'r farn bod y cynigion yn yr ymgynghoriad yn fan cychwyn i unioni'r heriau presennol, ond pwysleisiodd y bydd rhannu arfer gorau a gwella cysondeb ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn hanfodol er mwyn rhoi'r gwelliannau hyn ar waith. Yn yr un modd, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y dylai effaith y cynigion fod yn gadarnhaol, ond y bydd hynny'n dibynnu ar y cynllun gweithredu.

Roedd Conffederasiwn GIG Cymru yn gweld mwy o gynrychiolaeth a dylanwad, cyfranogiad dinasyddion, cysondeb adrodd a chydweithio gwell fel effeithiau cadarnhaol posibl. Ar y cyfan, roedd y Conffederasiwn o'r farn y byddai'r Rheoliadau'n cael effaith gadarnhaol ar sefydliadau neu sectorau o fewn iechyd a gofal cymdeithasol, er eu bod yn awgrymu rhai gwelliannau - er enghraifft, o ran casglu a rhannu data. Fodd bynnag, gwelodd y Conffederasiwn fod cyfle wedi'i fethu gan nad oedd y Rheoliadau'n cydnabod y rhwystrau i gynllunio integredig effeithiol, darparu gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth – er enghraifft, trefniadau llywodraethu gwahanol, cyfyngiadau ar ddefnyddio cyllid, camlinio blaenoriaethau. Cwestiynodd a fydd y newidiadau, ar eu pennau eu hunain, yn cryfhau gwaith partneriaeth effeithiol neu'n helpu i wneud y mwyaf o gyfleoedd, ac awgrymodd y dylai'r Rheoliadau nodi cyfleoedd i ddileu neu leihau rhwystrau. Awgrymodd y Conffederasiwn hefyd nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer cyllidebau cyfun yn cefnogi cynllunio a darparu integredig yn ddigonol, a galwodd am ystyried dull gwahanol. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Rheoliadau'n mynd i'r afael â chyfyngiadau sy'n atal datblygu modelau ariannol amgen.

**Cwestiwn 3: Beth yw eich barn am effaith debygol y Rheoliadau drafft ar grwpiau penodol o bobl, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? A oes unrhyw feysydd penodol lle rydych yn teimlo y bydd effaith gadarnhaol neu negyddol ar grwpiau penodol? Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Mynegodd yr EHRC, Comisiynydd Plant Cymru a Choleg Nyrsio Brenhinol Cymru siom nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hasesiadau effaith ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Awgrymodd yr ECHR nad oedd y ddogfen ymgynghori yn ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol yn ddigonol, a mynegodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru siom nad oes unrhyw un o'r Rheoliadau'n cynnwys unrhyw gynigion i wella cynrychiolaeth o wahanol grwpiau.

Nododd Age Cymru fod croestoriadedd nodweddion gwarchodedig yn golygu bod y newidiadau'n debygol o gael mwy o effaith ar bobl hŷn, a rhestrodd rai o'r materion yr oedd hyn yn arwain atynt, gan gynnwys anghenion pobl LHDTC+ hŷn, costau byw gyda salwch a sut y gellir gwneud y mwyaf o fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag oedran, opsiynau trafnidiaeth ar gyfer mynediad at wasanaethau, y lefel gynyddol o angen ymhlith gofalwyr di-dâl, sut y byddai gwasanaethau integredig gwell yn lleihau

pwysau rhyddhau o’r ysbyty, sut y gellid gwella ansawdd bywyd pobl anabl, a sut y gellid lleihau'r pwysau ar ofalwyr benywaidd.

Roedd yr undebau llafur yn myfyrio ar sut y gallai ychwanegu cynrychiolwyr y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol at aelodaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol helpu i ysgogi newid mewn gweithleoedd ac yn ehangach. Tynnodd Unsain Cymru sylw at adroddiad yr EHRC yn 2022 ar brofiadau gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflogau is, a'r angen i gysylltu â Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru. Mynegodd GMB Wales and South West bryder dwys am nifer yr adroddiadau o gamfanteisio ar weithwyr rhyngwladol mewn gofal a galwodd am well gorfodaeth - gallai tynnu sylw at arferion camdriniol fod yn un effaith gadarnhaol o gael llais gweithwyr ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Awgrymodd Llais y byddai'r ffocws cynyddol ar lais y dinesydd a chydgynhyrchu yn cael effaith gadarnhaol ar nodweddion gwarchodedig, er y bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wneud ymdrechion ychwanegol i ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml neu heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y gofynion gweinyddol newydd yn cael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth y Bwrdd, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai sydd â phrofiad bywyd. Awgrymodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent hefyd y gallai fod mwy o gynrychiolaeth gan grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan nodi ar yr un pryd y bydd angen amser ac ymdrech i gyflawni hyn.

Awgrymodd CLILC y dylai ymestyn aelodaeth helpu i sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn gallu ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a dylanwadu arnynt, ond gan ystyried maint cyffredinol y byrddau a sut i ddod o hyd i unigolion sy'n gallu cynrychioli gwahanol safbwyntiau.

Roedd Conffederasiwn GIG Cymru hefyd yn teimlo y gallai ymestyn yr aelodaeth fod yn gam cadarnhaol, a bod y trefniadau i gynnwys a monitro cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ffordd gadarnhaol ymlaen. Er ei fod yn croesawu potensial y Rheoliadau o ran gwneud Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn fwy gweladwy i'r cyhoedd, awgrymodd y Conffederasiwn y byddai gofyniad am gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n ymwneud â gweithgarwch cenedlaethol a lleol yn gwella hyn. Awgrymodd hefyd y dylid cael adran yn yr adroddiadau blynyddol yn nodi gweithgarwch mewn perthynas â hyrwyddo cydraddoldeb.

Nododd Fforwm Gofal Cymru nad oes gan unrhyw Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fecanwaith ar gyfer ymgysylltu â phreswylwyr mewn cartrefi gofal i gael eu barn a'u profiadau wrth lunio ei asesiad o anghenion y boblogaeth, ac awgrymodd fod y diffyg cyfeiriad at wasanaethau gofal rheoleiddiedig yn Rheoliadau 2015 yn atgyfnerthu'r teimlad bod y bobl sy'n eu defnyddio yn llai pwysig rywsut.

**Cwestiwn 4: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y rheoliadau drafft ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**

Cafwyd deuddeg ymateb i'r cwestiwn hwn. O'r tri Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a ymatebodd, dywedodd dau fod gan bob un o'u partneriaid ddealltwriaeth o'u gofyniad o ran y Gymraeg, a dywedodd y trydydd y bydd cydymffurfiaeth yn dibynnu ar argaeledd siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Nodwyd hefyd bod angen ystyried anghenion iaith eraill.

Yn ôl CLILC, pe baem yn cyflawni'r uchelgeisiau o ran cyflwyno system gofal cymunedol integredig a gwella trefniadau gweinyddol, byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gan arwain at gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau yn well i gefnogi anghenion iaith heb orfod gofyn am hyn.

Nododd Conffederasiwn GIG Cymru hefyd y gallai cryfhau trefniadau comisiynu gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, er nad oedd yn glir sut y byddai'r Rheoliadau'n arwain at fynd i'r afael â'r bylchau sylweddol yn argaeledd gweithlu sy'n siarad Cymraeg. Gwnaeth dri awgrym: y dylai aelodaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys canran o siaradwyr Cymraeg i adlewyrchu poblogaeth Gymraeg pob ardal; y dylai aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; ac y dylai aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys rôl eiriolwr y Gymraeg benodol.

Ar y llaw arall, dywedodd Fforwm Gofal Cymru na fyddai'r Rheoliadau'n cael unrhyw effaith benodol ar y Gymraeg. Fodd bynnag, awgrymodd Cyngor Sir Conwy y bydd gofyniad i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio gyda Llais yn cael effaith gadarnhaol, gan ei fod yn sefydliad dwyieithog. Nododd GMB Wales and South West y bydd y gweithredu'n araf gan y bydd yn cymryd amser i gynyddu gallu iaith y gweithlu.

Mynegodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru siom nad yw'r Rheoliadau'n cyfeirio at y Gymraeg, ac nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ochr yn ochr â'r Rheoliadau drafft.

Dywedodd Cyngor Sir Gwynedd fod cynnal trafodaethau ystyrlon yn y Gymraeg yn her oherwydd maint Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd, gan nodi bod symud trafodaethau a phenderfyniadau i ffwrdd o awdurdodau lleol i gyrff rhanbarthol yn cael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg, gan gydnabod hefyd y cyfleoedd mae hyn yn eu creu ar gyfer hyrwyddo a dylanwadu.

Yn olaf, rhoddodd Age Cymru adborth yn awgrymu nad yw'r hawl i gael gwasanaeth yn y Gymraeg bob amser yn bosibl yn ymarferol - yn benodol, i bobl hŷn â dementia sy'n byw yn y gymuned, yn yr ysbyty ac mewn lleoliadau preswyl.

**Cwestiwn 5: Yn eich barn chi, a ellid llunio'r rheoliadau drafft neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Esboniwch eich rhesymau.**

Gwnaeth y pum ymateb i'r cwestiwn hwn yr awgrymiadau canlynol:

- Defnyddio'r Rheoliadau i roi dyletswydd ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod eu gweinyddiaeth fewnol a'u hymgysylltiad â'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg.
- Cyfeirio at Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn y Rheoliadau.

- Alinio'r Rheoliadau â Safonau'r Gymraeg.
- Sefydlu proses ar gyfer adolygu effeithiau'r Rheoliadau ar y Gymraeg.
- Darparu canllawiau ar ddisgwyliadau a rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Gymraeg, gan gynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â siaradwyr Cymraeg wrth ddatblygu'r trefniadau partneriaeth, ac wrth fonitro ac adolygu eu heffeithiolrwydd.

**Cwestiwn 6: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt?**

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ymwneud yn bennaf â Chanllawiau Statudol Rhan 9, er nad oeddent yn ffocws i'r ymgynghoriad hwn. Ailadroddodd y rhain y pwyntiau a wnaed yn ystod ymgynghoriad 2023. Cafwyd sylwadau hefyd ar weithredu neu faterion gofal cymdeithasol mwy cyffredinol.

Cododd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent nifer o faterion eraill, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a thryloywder data ar draws sefydliadau a phartneriaethau, gwella trefniadau pontio, ymyrraeth gynnar, a thynnu sylw'n fwy effeithiol at y trydydd sector fel partner hanfodol ym maes ymyrraeth gynnar ac atal.

Argymhellodd yr EHRC y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael eu rhestru o dan ran 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fel y byddent yn ddarostyngedig i Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Awgrymodd yr EHRC y gallai Llywodraeth Cymru wneud hyn drwy ddiwygio'r Rheoliadau i roi dyletswydd ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i roi sylw priodol i'r dyletswyddau a osodwyd ar y cyrff partneriaeth o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (yn debyg i'r amcan 'sylw dyladwy' mewn perthynas ag adran 16).

Cododd Unsain Cymru y mater o bartneriaeth gymdeithasol, a methiant canfyddedig rhai o aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddeall bod hyn yn mynd y tu hwnt i gyflog ac amodau, a'i fod yn golygu ymgorffori llais gweithwyr mewn perthynas â phob penderfyniad strategol. Argymhellodd Unsain yn gryf y dylai holl aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol dderbyn hyfforddiant partneriaeth gymdeithasol.

Roedd Age Cymru am weld mwy o gyfeiriadau at anghenion penodol pobl hŷn a gofalwyr hŷn di-dâl, er mwyn atal rhagfarn oed anfwriadol rhag gwthio anghenion pobl hŷn i'r cyrion. Un o'r materion hyn oedd y cysylltiad rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru mewn perthynas â chludiant cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys.

Cododd Comisiynydd Plant Cymru y materion canlynol yn ymwneud â'r Canllawiau Statudol:

- Rhaid i'r cydweithio â Llais adlewyrchu'n briodol leisiau grwpiau blaenoriaeth o dan Ddeddf 2014, gan gynnwys plant ag anghenion cymhleth. Rhaid cynnwys llais plant sy'n gymwys i gael eiriolaeth statudol (nad yw wedi'i gynnwys yng nghynnig eiriolaeth Llais) yn yr aelodaeth dinasyddion hefyd, gan na fyddant yn gallu rhoi barn drwy Llais oni bai bod ganddynt gŵyn iechyd benodol.

- Dileu dau baragraff cyfan am hawliau plant sydd yn y fersiwn bresennol o'r canllawiau. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriad at sylw dyladwy i'r CCUHP.
- Cyfeirio'n benodol at y grwpiau blaenoriaeth (gan gynnwys plant ag anghenion cymhleth) yn yr adran ar hunanasesu, a sicrhau bod y broses hunanasesu yn tynnu sylw at sut mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi gwneud cynnydd mesuradwy yn erbyn canlyniadau.
- Cynnwys niwroamrywiaeth o fewn y diffiniad o blant ag anghenion cymhleth. Hefyd, mynegwyd siom ynglŷn â'r ffaith bod sefydlu is-grŵp ar gyfer plant ag anghenion arbennig wedi cael ei israddio o fod yn rhywbeth y 'dylid' ei wneud i fod yn rhywbeth dymunol.

Cododd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru y mater o integreiddio a symleiddio trefniadau gweithio rhanbarthol rhwng y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a threfniadau partneriaeth rhanbarthol eraill, yn enwedig y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chredai fod y Rheoliadau wedi methu'r elfen bwysig hon o integreiddio. Mae angen i'r trefniadau newydd fod â ffocws cryf ar atal a meddwl yn y tymor hir, yn ogystal â'r ffyrdd eraill o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (integreiddio, cydweithio a chynnwys). Dadleuodd y Comisiynydd dros integreiddio cyfleoedd ariannu yn well ar draws portffolios y Llywodraeth, a gwneud cydweithio rhwng partneriaid lleol a rhanbarthol yn amod pryd bynnag y bydd corff cyhoeddus yn derbyn cyllid. Gallai canllawiau cyllid hefyd nodi bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phartneriaethau eraill yn cael gwybod am y cyfle cyllido.

Roedd ymateb Conffederasiwn GIG Cymru hefyd yn awgrymu gwaith mwy integredig rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys gofyniad y dylai cynlluniau cyflawni blynyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried ac alinio â chynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ar ben hynny, awgrymodd fod diffyg aliniad rhwng y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r blaenoriaethau gweinidogol ar gyfer iechyd, ac nad yw blaenoriaethau ar gyfer iechyd megis Llwybrau Darparu Gofal yn cael eu hefelychu ar draws gofal cymdeithasol. Nid oedd yn glir i ba raddau y byddai'r Rheoliadau'n galluogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i hwyluso datblygiad dull cyffredin a rennir.

Awgrymodd Conffederasiwn GIG Cymru hefyd y dylai'r canllawiau gynnwys dull unioni a gydnabyddir yn ffurfiol lle mae gwrthdaro'n digwydd, gan nad oes proses leol ar gyfer datrys neu osgoi anghydfod ar waith ar hyn o bryd.

Awgrymodd Llais y dylid rhoi model gweithredol safonol ar waith ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a'i fonitro.

Awgrymodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru y dylai'r Rheoliadau gynnwys gofyniad i gynyddu atebolrwydd cyhoeddus Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi cofnodion ac agendâu; cyhoeddi enwau a manylion cyswllt aelodau; cynnal gwefannau a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus sy'n cael eu diweddaru; ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyhoedd.

Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy nad yw'r Rheoliadau'n cynnwys digon o fanylion am weithredu, llywodraethu a strwythur y gwahanol grwpiau o dan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Awgrymodd ymateb gan unigolyn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymestyn canllawiau diweddar Fforwm Iechyd Meddwl Cymru ar dâl i aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Byddai hefyd yn ddefnyddiol egluro a yw'r tâl am dreuliau uniongyrchol neu dâl am waith neu wasanaeth.

Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru fod profiad cynrychiolwyr cymdeithasau tai ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn wahanol iawn o ranbarth i ranbarth. Mae cymdeithasau tai yn sôn am heriau wrth geisio ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan nad yw'r llwybrau ymgysylltu yn amlwg. Gallai strwythur cymharol debyg ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hwyluso ymgysylltiad yn well.

Roedd ymateb Cyngor Sir Gwynedd yn awgrymu bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithredu heb oruchwyliaeth ddemocrataidd ddigonol, gan mai dim ond un aelod etholedig o bob awdurdod sy'n eistedd ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Awgrymodd y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys cynghorwyr sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau plant ac oedolion, a thai, er mwyn sicrhau atebolrwydd. Nodwyd y byddai gwneud hyn yn golygu y gallai 12 neu 18 o gynghorwyr fod yn aelodau yn y Gogledd, gan godi'r cwestiwn a yw'r Gogledd yn rhanbarth rhy fawr.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad, ac am y pwyntiau a godwyd.

### Amcanion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Rydym yn falch o weld bod y Rheoliadau drafft i ychwanegu'r canlynol at y rhestr o amcanion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u derbyn yn gyffredinol:

- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn ymateb i adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad
- gweithio gyda Llais i hyrwyddo cyfranogiad pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr, yng ngwaith y bartneriaeth
- hyrwyddo datblygu trefniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig.

O ran yr amcan integreiddio, rydym wedi nodi'r sylwadau am gynnwys y chwe model gofal o fewn y Canllawiau Statudol. Fel y nodir yng nghynllun *Cymru Iachach* Llywodraeth Cymru, bydd datblygu system iechyd a gofal cymdeithasol integredig genedlaethol yn seiliedig ar fodelau gofal di-dor a chyfleoedd i uwchraddio syniadau newydd a ffyrdd gwell o weithio i lefel ranbarthol ac yna i lefel genedlaethol. Byddwn yn parhau i ddatblygu System Gofal Cymunedol Integredig ar y sail hon, gyda mewnbwn gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Rydym wedi edrych eto ar eiriad yr amcanion sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfranogiad plant a hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector. Roedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn poeni bod y geiriad gwreiddiol yn awgrymu bod rhaid iddynt ddwyn cyrff partneriaeth unigol i gyfrif am sut y maent yn cyflawni eu dyletswyddau o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac o dan adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid dyna oedd y bwriad. Ein nod yw sicrhau bod gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol oruchwyliaeth strategol dros ddatblygu dulliau partneriaeth i hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc, a goruchwyliaeth strategol dros ddulliau rhanbarthol o hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector mewn ymateb i adroddiadau rhanbarthol ar sefydlogrwydd y farchnad a chynlluniau ardal. Mae amcanion presennol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn ymateb i'r asesiadau o anghenion y boblogaeth ac yn gweithredu'r cynllun ardal) hefyd yn ymwneud â goruchwylio dyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r byrddau iechyd ar sail ôl troed rhanbarthol. Mae'r ddau amcan newydd i fod cael grym tebyg a gweithredu yn yr un modd, ac maent yn ymwneud ag arfer y swyddogaethau hynny mewn perthynas â'r trefniadau partneriaeth.

Mae'r ddau amcan hyn bellach yn darllen fel a ganlyn:

- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad y defnyddwyr a'r trydydd sector (yn unol â dyletswydd awdurdod lleol o dan adran 16 o Ddeddf 2014) wrth ymateb i adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad a gweithredu eu cynlluniau ardal ar y cyd

- sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn hyrwyddo ac yn hwyluso cyfranogiad plant o dan 18 oed mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt a wneir wrth arfer y trefniadau partneriaeth (yn unol â dyletswydd awdurdod lleol o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010).

Rydym hefyd wedi ailedrych ar Ganllawiau Statudol Rhan 9 i sicrhau eu bod yn disgrifio'n gliriach rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran goruchwyliaeth strategol dros swyddogaethau a wneir mewn partneriaeth, gan ganolbwyntio ar y trefniadau partneriaeth yn hytrach na monitro cydymffurfiaeth cyrff partneriaeth unigol â'u dyletswyddau statudol.

**Aelodaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

Rydym yn falch bod y Rheoliadau drafft wedi'u derbyn yn gyffredinol mewn perthynas â'r canlynol:

- ychwanegu cynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a darparwyr gofal sylfaenol at y rhestr o aelodau rhagnodedig o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- creu categori newydd o aelod arsylwr annibynnol o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a'i gwneud yn ofynnol i'r Byrddau benodi Corff Llais y Dinesydd (Llais) fel aelod annibynnol.

Rydym wedi nodi'r pryderon ynghylch sut y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dewis cynrychiolwyr darparwyr gofal sylfaenol, o ystyried ehangder y ddarpariaeth gofal sylfaenol. Nid yw'r aelodau hyn i fod yn 'gynrychiolwyr' yr holl ddarparwyr gofal sylfaenol, ond yn hytrach yn llais cynrychiadol – mater a archwiliwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu a Llais mewn perthynas ag aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n ddinasyddion, o'r trydydd sector ac yn ddarparwr gofal, ac a esbonnir yn y Canllawiau Statudol diwygiedig. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod y trefniadau newydd yn gweithio'n effeithiol ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi wrth eu gweithredu. Bydd y gofynion newydd ynghylch disgrifiadau rôl a chymorth i aelodau hefyd yn helpu gyda hyn.

Dangosodd y Rheoliad arfaethedig ynghylch cynrychiolaeth llais gweithwyr ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol raniad clir rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac undebau llafur / cyrff proffesiynol. Roeddem yn falch o weld bod pob parti yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â gweithwyr gofal a'u sefydliadau cynrychiadol yn y trefniadau partneriaeth. Y mater allweddol sy’n destun cynnen yw ble mae'r llais hwn yn cael ei fynegi orau o fewn y trefniadau hynny, ac ai cael cynrychiolydd gweithwyr ar y Bwrdd ei hun yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hyn. Rydym wedi ystyried y mater hwn ymhellach ac yn credu bod rhinweddau i ddwy ochr y ddadl. Mae ffyrdd o gyfrannu lleisiau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i'r Bwrdd heb yr angen am aelodaeth ffurfiol - er enghraifft, drwy sefydlu fforwm llais gweithwyr a allai adrodd i'r bwrdd o bryd i'w gilydd. Gall Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddewis hefyd gyfethol llais gweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur fel aelod o'r bwrdd neu aelod arsylwr annibynnol. Ar y llaw arall, dylid nodi y bydd trafodaethau strategol yn cael eu cynnal yng nghyfarfodydd y Bwrdd sy'n ymdrin â materion y gweithlu – er enghraifft, wrth ystyried adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad, y mae'n ofynnol iddynt gynnwys tueddiadau, heriau, risgiau a chyfleoedd nawr ac yn y dyfodol sy'n effeithio ar ddigonolrwydd gofal a chymorth a

sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal rheoleiddedig – a lle gallai cael cynrychiolydd gweithlu ar y bwrdd fod yn arbennig o ddefnyddiol.

Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym wedi penderfynu cadw'r ddarpariaeth i sicrhau bod o leiaf un cynrychiolydd o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae lleisiau darparwyr gofal, y trydydd sector, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl eisoes yn cael eu cynrychioli ar y Byrddau, ac mae peidio â chael llais cynrychiadol gan y gweithlu gofal yn fwlch clir, yn enwedig o ystyried yr ymrwymiad clir sydd gennym i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud rhagor o waith gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r undebau llafur / cyrff proffesiynol i ddatblygu disgrifiad rôl a mecanweithiau addas ar gyfer enwebu a recriwtio cynrychiolwyr y gweithlu sydd â'r sgiliau priodol i gyfrannu ar y lefel strategol hon. Bydd hyn hefyd yn cynnwys y mecanweithiau gorau ar gyfer sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cael cyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at lunio darpariaeth gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol ar draws eu rhanbarth. Bydd hyn yn gofyn am ddull partneriaeth gymdeithasol. Byddwn yn sicrhau bod negeseuon clir yn y Canllawiau Statudol am yr angen am ymgysylltu o'r fath.

Rydym yn cynnig ailsefydlu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu a Llais i ymgymryd â darn pellach o waith ynghylch materion cynrychiolaeth gofal sylfaenol a llais ac ymgysylltiad gweithwyr.

### Personau cyfrifol

Rydym wedi nodi'r sylwadau sy'n galw am eglurder pellach ynghylch rôl a chyfrifoldeb y 'person cyfrifol' o'r byrddau iechyd, a sut i ddiffinio hyn, a byddwn yn trafod hyn ymhellach gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r byrddau iechyd er mwyn cefnogi'r gweithredu.

### Swyddogaethau gweinyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Roeddem yn falch o'r ymateb cadarnhaol i'r darpariaethau newydd o ran recriwtio a chymorth i aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Canllawiau Statudol yn darparu gofynion a chanllawiau pellach i gefnogi'r darpariaethau hyn, gan gynnwys yr angen i gynyddu amrywiaeth cynrychiolaeth.

### Hunanasesu

Roeddem yn falch bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cefnogi'r Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgymryd â hunanasesiadau bob dwy flynedd. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eisoes wedi treialu hunanasesiadau, gyda chymorth gan y Sefydliad Polisi Gofal Cyhoeddus (o dan gontract i Lywodraeth Cymru), ac mae gwersi defnyddiol wedi'u dysgu. Byddwn yn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad wrth i ni werthuso canlyniadau'r set gyntaf hon o hunanasesiadau, a byddwn yn trafod camau i'r dyfodol gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

### Adroddiadau blynyddol

Roeddem yn falch bod y Rheoliad sy'n rhestru'r hyn y mae'n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei gynnwys yn eu hadroddiad blynyddol wedi derbyn cefnogaeth eang. Mae hyn yn adlewyrchu'r arfer da presennol ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Byddwn yn ystyried yr angen am arweiniad pellach ar ymgysylltu â'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn y Canllawiau Statudol.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod y Canllawiau Statudol yn cyfeirio at yr angen i ymgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ac i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar hyn.

**Cynlluniau cyflawni blynyddol ac adolygiadau blynyddol**

Roeddem yn falch bod y mwyafrif o'r ymatebion yn derbyn y Rheoliadau newydd ynghylch cynllunio ardal, a gyflwynodd ofynion ar gyfer cynlluniau cyflawni blynyddol ac adolygiadau blynyddol. Nodwn fod y trefniadau hyn eisoes ar waith mewn rhai rhanbarthau, ac nid ydym yn ystyried y bydd y gofynion hyn yn ychwanegu'n sylweddol at y trefniadau presennol ar gyfer cynllunio ac adrodd.

Nid yw sicrhau aliniad gwell a mwy strategol rhwng cynlluniau ardal, wedi'i oruchwylio gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a'r cynlluniau llesiant a baratoir gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn rhywbeth y teimlwn fod angen i ni ddeddfu ar ei gyfer. Yn hytrach, gellir ei adael i ddisgresiwn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae llawer o arfer da eisoes ynghylch alinio asesiadau anghenion y boblogaeth / llesiant a chynllunio ar y cyd, y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i'w annog a'i hwyluso drwy ein perthynas â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad**

Byddwn yn gwneud y diwygiad i newid y dyddiadau cyflwyno ar gyfer adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad yn y dyfodol. Fel yr esbonnir yn y ddogfen ymgynghori, mae hyn yn mynd i'r afael â mater a oedd wedi codi wrth gyflwyno'r set gyntaf o adroddiadau. Byddwn yn ystyried, cyn y rownd nesaf o adroddiadau (a ddisgwylir yn 2027) a oes angen i ni gyhoeddi unrhyw ganllawiau atodol i gefnogi'r Cod Ymarfer ar Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad.

## Y camau nesaf

Byddwn yn gwneud y newidiadau i'r Rheoliadau drafft fel y nodir uchod, a byddwn hefyd yn diwygio'r Canllawiau Statudol (gan ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad 2023, ac unrhyw awgrymiadau ychwanegol a wnaed yn yr ymgynghoriad hwn). Byddwn yn gosod fersiwn ddrafft ddiwygiedig o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 a Chanllawiau Statudol Rhan 9: Gweithio mewn Partneriaeth gerbron y Senedd ym mis Tachwedd. Os bydd y Senedd yn ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn, ein bwriad yw dod â'r darpariaethau newydd i rym ar 31 Rhagfyr 2024.

Byddwn yn cyhoeddi asesiad effaith integredig, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar hawliau plant, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ochr yn ochr â'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol pan fyddant yn cael eu gosod gerbron y Senedd ym mis Tachwedd.